# ‘Adroddiad Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni’ Ein Wrecsam, Ein Dyfodol – Ymgynghoriad ‘Eich Llais Wrecsam’ ar gyfer datblygu Asesiad Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam

## 1. Cefndir

I gyflawni ein nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i les pawb, mae’n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddatblygu cynlluniau lles bob 5 mlynedd, yn seiliedig ar asesiad lles.

Bydd Cynllun Lles nesaf Bwrdeistref Sirol Wrecsam (ar gyfer 2023-2028) yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023. Mae Ein Wrecsam, Ein Dyfodol yn rhan allweddol o’n hasesiad lles, ac yn dylanwadu’n uniongyrchol ar gynnwys ein cynllun lles.

## 2. Diben ymgynghori

Er mwyn asesu lles yn ein cymuned ac yn yr ardal yn gyffredinol, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys adborth sy’n cipio barn a chanfyddiadau yn ogystal â gosod cyd-destun i ymchwil a data arall sydd ar gael.

Cafodd ymgynghoriad ‘Ein Wrecsam, Ein Dyfodol’ ei gynnal drwy borthol ymgynghoriad ‘Eich Llais Wrecsam’. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i gyfranogwyr ystyried Saith Nod Lles Cymru a meddwl am sut y gallai lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei wella o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam er mwyn cyflawni’r amcanion hyn.

Mae Saith Nod Lles wedi eu cynnwys yn y tabl isod:

| Nod | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang, ac felly’n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd am waith, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith addas. |
| **Cymru gydnerth** | Cymru sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd bioamrywiol naturiol gydag ecosystemau iach sy'n cefnogi gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymru lle gwneir y mwyaf o les corfforol a meddyliol pobl a lle mae dewisiadau ac arferion sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol yn cael eu deall. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Cymru sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu** | Cymru sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden. |
| **Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cymru sy’n ystyried a fyddai gwneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a lles diwylliannol Cymru yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i les byd-eang. |

## 3. Cyfnod Ymgynghori

Cafodd yr ymgynghoriad hwn ei ddatblygu gan Gyngor Wrecsam mewn cydweithrediad â Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, Senedd yr Ifanc (plant a phobl ifanc) a'i bartneriaid Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus. Cafodd yr ymgynghoriad ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg ar borthol ymgynghori 'Eich Llais Wrecsam' http://www.yourvoicewrexham.net/.

Roedd yr ymgynghoriad yn rhoi cyfle i gyfranogwyr gymryd rhan mewn arolwg ar-lein ar gael i'w lenwi dros gyfnod o 6 wythnos rhwng 20 Medi a 3 Tachwedd 2021. Roedd yr arolwg hefyd ar gael mewn fersiwn papur. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau meintiol ac ansoddol am les lleol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi pa un a oeddent yn ymateb i'r ymgynghoriad fel unigolyn neu fel grŵp. Os oedd yr ymateb ar ran grŵp roedd angen gwybodaeth sylfaenol am y grŵp. Roedd cwestiynau monitro cydraddoldeb safonol dewisol ar gyfer unigolion wedi eu cynnwys yn yr ymgynghoriad hefyd.

Cafodd yr ymgynghoriad gyhoeddusrwydd drwy:

- Datganiad i'r wasg ac erthygl blog wedi eu dosbarthu i'r wasg leol
- Ymgyrch cyfryngau cymdeithasol (cyfrifon Facebook a Twitter Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)
- hyrwyddo ym Mwletin Staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Hyrwyddo ar wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a gofyn am gyhoeddi ar wefannau partneriaid.
- E-bost uniongyrchol i'r sawl sydd wedi cofrestru i dderbyn gwybodaeth am ymgynghoriadau drwy swyddogaeth 'Fy Nghyfrif' ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (1994 o dderbynwyr).
- E-bost uniongyrchol i Gynghorau Tref a Chymuned
- Taflenni wedi eu hargraffu yn cyhoeddi'r ymgynghoriad wedi eu dosbarthu i lyfrgelloedd, swyddfeydd ystadau tai, lleoliadau allweddol yng nghanol y dref, canolbwyntiau cymunedol lleol, grwpiau ieuenctid a grwpiau cymunedol eraill ar draws Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Roedd gwybodaeth atgoffa am yr ymgynghoriad wedi'i hanfon i'r wasg a'i chyhoeddi drwy'r cyfryngau cymdeithasol hanner ffordd drwy'r cyfnod ymgynghori, gyda nodyn atgoffa wythnos cyn y dyddiad cau.

Gwnaed ymdrechion i gyrraedd y sawl â nodweddion a ddiogelir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys:

- E-bost uniongyrchol i dros 100 o gysylltiadau i grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion a ddiogelir;

- Hyrwyddo gyda phobl ifanc wedi'i gefnogi gan Gydlynydd Cyfranogiad Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam oedd wedi rhannu'r ymgynghoriad gydag aelodau Senedd yr Ifanc (oedd hefyd â mewnbwn i gwestiynau'r ymgynghoriad), staff gwasanaeth ieuenctid Wrecsam, cysylltiadau Cyngor Ysgol a phenaethiaid;

- Hyrwyddo gyda chyrff llywodraethu ysgol a llywodraethwyr ysgol;

- Arweinydd Atal a Datblygu Gwasanaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, wedi'i rannu gyda holl gysylltiadau trydydd sector.

- Roedd Tîm Cydlyniant Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi gwneud cysylltiad personol gyda phobl o ystod o gymunedau amrywiol, gydag unigolion yn cael eu cefnogi i ddarparu adborth.

- Ymwelwyd â chanolfan galw heibio ceiswyr lloches a ffoaduriaid Wrecsam, gydag unigolion yn cael eu cefnogi i ddarparu adborth;

- Cynigiwyd cyfarfodydd ar-lein i'r timau Thema Adferiad Covid Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus a chynhaliwyd cyfarfod gyda'r tîm Thema Tlodi ac Anghydraddoldeb, gyda thimau Thema Adferiad eraill yn methu cyfarfod gyda ni yn derbyn gwybodaeth a dolenni i'r ymgynghoriad drwy e-bost; a

- Mynychwyd cyfarfodydd gyda Fforwm Partneriaeth Parc Caia a grŵp 'Cristnogion Gyda'n Gilydd yn Wrecsam'.

Trwy gydol y cyfnod ymgynghori 6 wythnos, roedd y gweithgor ymgynghori yn cwrdd yn rheolaidd i adolygu cyrhaeddiad yr ymgynghoriad.

Roedd ymgynghoriad 'Eich Llais Wrecsam' wedi'i gynnal o fewn cyd-destun ymgynghoriad ehangach ynglŷn â lles lleol a gynhaliwyd gan y rhwydwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru, oedd yn cynnwys gweithdai 'Lleisiau Cymunedol' i grwpiau â nodweddion a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## 4. Ymateb i'r Ymgynghoriad

Derbyniwyd 885 o ymatebion i'r ymgynghoriad. 863 (97.5%) gan unigolion a 22 (2.5%) ar ran grwpiau/sefydliadau.

Mae'r 885 o ymatebion hyn yn cynrychioli lefel hyder o 95% a chyfwng hyder o 3.28%, cyn belled â bod y sampl hwn o gyfranogwyr yn cynrychioli'r boblogaeth gyfan.

***Lefel hyder*** *yw mynegiant o ba mor hyderus y gall ymchwilydd fod o ran y data a dderbyniwyd gan sampl. Mae lefelau hyder yn cael eu mynegi fel canran ac yn dangos pa mor aml y byddai canran o'r boblogaeth yn rhoi ateb fyddai o fewn y cyfwng hyder.*

***Cyfwng hyder*** *yw'r ffin o wallau y byddai'r ymchwilydd yn ei brofi pe gallai ef neu hi ofyn cwestiwn ymchwil penodol, er enghraifft i bob aelod o'r boblogaeth darged, a derbyn yr un ymateb a nodwyd gan aelodau'r sampl a nodwyd yn yr arolwg.*

Yn ychwanegol at ymatebion wedi eu mewnbynnu'n uniongyrchol i Eich Llais Wrecsam gan bobl yn ymateb ar-lein a'r rhai oedd wedi eu mewnbynnu â llaw o fersiynau copi caled o'r arolwg a gwblhawyd gan ymatebwyr; un ymateb ysgrifenedig manwl yn cynnwys ystod o ymchwil a dadansoddiad wedi'i dderbyn drwy e-bost.

## 5. . Crynodeb cyffredinol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr fesur pob maes lles yn ôl pwysigrwydd, ar raddfa o 1-5, ble nad yw 1 yn bwysig o gwbl a 5 yn bwysig iawn.

O'r sawl wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad, mae'r graff isod yn dangos y ganran wnaeth ymateb ynglŷn â phob maes lles a chanran y sawl wnaeth gael mynediad i'r ymgynghoriad yn graddio pob maes lles yn bwysig neu'n bwysig iawn.




| Maes lles | Canran o'r cyfanswm a fu'n rhan o'r ymgynghoriad a atebodd y cwestiwn am y maes lles hwn. | Canran y sawl wnaeth ateb cwestiwn lles yn nodi lles yn bwysig neu'n bwysig iawn. | Canran o bobl yn cyfrannu at yr ymgynghoriad yn nodi lles yn bwysig neu'n bwysig iawn |
|---|---|---|---|
| **Lles Economaidd** | 72.09% | 76.80% | 55.37% |
| **Lles Cymdeithasol** | 62.71% | 72.97% | 45.76% |
| **Lles Amgylcheddol** | 59.66% | 72.92% | 43.50% |
| **Lles Diwylliannol** | 57.85% | 57.62% | 33.33% |

Ar gyfer pob maes lles, mae adborth ansoddol wedi'i ddadansoddi i nodi themâu sy'n digwydd yn aml.

- **Lles economaidd:** Mae themâu ymateb yn canolbwyntio ar y cyfleoedd a'r heriau i'r sawl sy'n byw ac yn gweithio ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

- **Lles cymdeithasol:** Mae themâu ymateb yn dangos dymuniad am fwy o ymdeimlad o gymuned yn ein Bwrdeistref Sirol, a'r angen am gefnogaeth i'r sawl sydd o bosibl yn fwy diamddiffyn.

- **Lles amgylcheddol:** Mae themâu ymateb yn cynnwys ystod o bryderon amgylcheddol ac yn canolbwyntio ar bwysigrwydd man gwyrdd ar gyfer iechyd a lles.

- **Lles diwylliannol:** Mae themâu ymateb yn dangos ymwybyddiaeth gref o gyfoeth ac amrywiaeth diwylliant lleol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam a dymuniad i gydnabod a hybu diwylliant lleol.

## 6. Canlyniadau manwl

### Lles Economaidd

Roedd 638 o ymatebwyr, 72.09% o gyfanswm ymatebwyr i'r arolwg wedi ateb y cwestiwn 'Pa mor bwysig yw gwella lles economaidd o fewn y Fwrdeistref Sirol, ar raddfa o 1 i 5, gydag 1 ddim yn bwysig o gwbl, 5 yn bwysig iawn?' O'r sawl wnaeth ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd 76.80% yn meddwl bod hyn yn bwysig neu'n bwysig iawn.



| Pa mor bwysig yw gwella lles economaidd o fewn y Fwrdeistref Sirol, ar raddfa o 1 i 5 (1 = ddim yn bwysig o gwbl, 5 = pwysig iawn)? | Nifer yr Ymatebwyr | Y ganran o'r ymatebwyr |
|---|---|---|
| 1 | 60 | 9.40% |
| 2 | 9 | 1.41% |
| 3 | 79 | 12.38% |
| 4 | 154 | 24.14% |
| 5 | 336 | 52.66% |
| **Cyfanswm ymatebwyr** | **638** | **100.00%** |

## Lles Cymdeithasol

Roedd 555 o ymatebwyr, 62.71% o gyfanswm ymatebwyr i'r arolwg wedi ateb y cwestiwn 'Pa mor bwysig yw gwella lles economaidd o fewn y Fwrdeistref Sirol, ar raddfa o 1 i 5, gydag 1 ddim yn bwysig o gwbl, 5 yn bwysig iawn?' O'r sawl wnaeth ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd 72.97% yn meddwl bod hyn yn bwysig neu'n bwysig iawn.



| Pa mor bwysig yw gwella lles cymdeithasol o fewn y Fwrdeistref Sirol, ar raddfa o 1 i 5 (1 = ddim yn bwysig o gwbl, 5 = pwysig iawn)? | Nifer yr Ymatebwyr | Y ganran o'r ymatebwyr |
|---|---|---|
| 1 | 65 | 11.71% |
| 2 | 12 | 2.16% |
| 3 | 73 | 13.15% |
| 4 | 127 | 22.88% |
| 5 | 278 | 50.09% |
| **Cyfanswm ymatebwyr** | **555** | **100%** |

## Lles Amgylcheddol

Roedd 528 o ymatebwyr, 59.66% o gyfanswm ymatebwyr i'r arolwg wedi ateb y cwestiwn 'Pa mor bwysig yw gwella lles amgylcheddol o fewn y Fwrdeistref Sirol, ar raddfa o 1 i 5, gydag 1 ddim yn bwysig o gwbl, 5 yn bwysig iawn?' O'r sawl wnaeth ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd 72.92% yn meddwl bod hyn yn bwysig neu'n bwysig iawn.



| Pa mor bwysig yw gwella lles amgylcheddol o fewn y Fwrdeistref Sirol, ar raddfa o 1 i 5, 1 ddim yn bwysig o gwbl, 5 yn bwysig iawn? | Nifer yr Ymatebwyr | Y ganran o'r ymatebwyr |
|---|---|---|
| 1 | 64 | 12.12% |
| 2 | 9 | 1.70% |
| 3 | 70 | 13.26% |
| 4 | 107 | 20.27% |
| 5 | 278 | 52.65% |
| **Cyfanswm atebwyr** | **528** | **100%** |

## Lles Diwylliannol

Roedd 512 o ymatebwyr, 57.85% o gyfanswm ymatebwyr i'r arolwg wedi ateb y cwestiwn 'Pa mor bwysig yw gwella lles diwylliannol o fewn y Fwrdeistref Sirol, ar raddfa o 1 i 5, gydag 1 ddim yn bwysig o gwbl, 5 yn bwysig iawn?' O'r sawl wnaeth ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd 57.62% yn meddwl bod hyn yn bwysig neu'n bwysig iawn.



| Pa mor bwysig yw gwella lles diwylliannol o fewn y Fwrdeistref Sirol, ar raddfa o 1 i 5 (1 = ddim yn bwysig o gwbl, 5 = pwysig iawn)? | Nifer yr Ymatebwyr | Y ganran o'r ymatebwyr |
|---|---|---|
| 1 | 62 | 12.11% |
| 2 | 43 | 8.40% |
| 3 | 112 | 21.88% |
| 4 | 100 | 19.53% |
| 5 | 195 | 38.09% |
| **Cyfanswm ymatebwyr** | **512** | **100%** |

## Adborth ansoddol

Rhan bwysig o'n harolwg oedd derbyn adborth ansoddol o ran y cwestiynau canlynol:

- Beth ydych chi'n credu fyddai'n gwella lles economaidd yn ein Bwrdeistref Sirol? *(Er enghraifft, gweithredoedd a allai gyfrannu at greu swyddi, trechu tlodi, datblygu busnesau ac ati.)*

- Beth ydych chi'n credu fyddai'n gwella lles cymdeithasol yn ein Bwrdeistref Sirol? *Er enghraifft, gweithredoedd a allai gyfrannu at synnwyr o berthyn i gymuned, datblygu perthnasoedd iach gydag eraill ac ati.*

- Beth ydych chi'n credu fyddai'n gwella lles amgylcheddol yn ein Bwrdeistref Sirol? *(Er enghraifft, gweithredoedd a allai gyfrannu at sefydlu ffyrdd o fyw cynaliadwy, diogelu adnoddau naturiol a gwaredu llygryddion a gwastraff gormodol.)*

- Beth ydych chi'n credu fyddai'n gwella lles diwylliannol yn ein Bwrdeistref Sirol? *(Er enghraifft, diogelu a hyrwyddo diwylliant, treftadaeth ac iaith fywiog.)*

Roedd enghreifftiau wedi eu cynnwys gyda'r cwestiynau i helpu ymatebwyr i ddeall a gweld beth oeddem yn ei ofyn iddynt. Roedd yr enghreifftiau a ddarparwyd wedi eu datblygu gan bobl ifanc yn gweithio gyda'i gilydd fel aelodau o Senedd Yr Ifanc.

## Methodoleg ar gyfer dadansoddi'r data ansoddol

Roedd adborth ansoddol wedi'i ddadansoddi i nodi themâu cylchol oedd wedi eu cynnwys o fewn yr ymatebion a dderbyniwyd.

Roedd adborth ar gyfer pob maes lles wedi'i ddadansoddi gan swyddogion yn gweithio mewn parau. Roedd y dadansoddwr arweiniol wedi adolygu a chymedroli'r canfyddiadau i sicrhau cysondeb.

Canfyddiadau ansoddol

a) **Cwestiwn ansoddol 1: Beth ydych chi'n credu fyddai'n gwella lles economaidd yn ein Bwrdeistref Sirol?** ***(Er enghraifft, gweithredoedd a allai gyfrannu at greu swyddi, trechu tlodi, datblygu busnesau ac ati.)***

Roedd 462 o ymatebwyr wedi darparu adborth mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae tabl yn dangos y 5 thema uchaf wedi eu cynnwys mewn ymatebion isod. Mae themâu ymateb yn canolbwyntio ar y cyfleoedd a'r heriau i'r sawl sy'n byw ac yn gweithio ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

| Pennawd Thema | Disgrifiad o'r Thema | Cyfanswm ymatebwyr |
|---|---|---|
| **Cefnogi ac annog busnes a diwydiant** | Gwneud y Fwrdeistref sirol yn ddeniadol i fusnesau a diwydiant a darparu cyfleusterau i gefnogi ac annog busnes | 137 |
| **Darparu cefnogaeth, cyngor, hyfforddiant a chyfleoedd** | Darparu cefnogaeth, cyngor, hyfforddiant a chyfleoedd priodol i anghenion pobl | 98 |
| **Gwella edrychiad, teimlad a chynllun canol tref Wrecsam** | Gwella edrychiad, teimlad a chynllun/dyluniad canol tref Wrecsam yn gyffredinol | 88 |
| **Sicrhau cyfleoedd gwaith da** | Sicrhau bod ystod a nifer dda o gyfleoedd gwaith sefydlog, sy'n talu'n dda ar gael yn yr ardal | 88 |
| **Ailgyflunio cyfleoedd siopa** | Ailgyflunio cyfleoedd siopa i ddarparu dewis gwell o siopau o fewn ardal fanwerthu bach | 82 |

*b)* **Cwestiwn ansoddol 2: Beth ydych chi'n credu fyddai'n gwella lles cymdeithasol yn ein Bwrdeistref Sirol?** ***Er enghraifft, gweithredoedd a allai gyfrannu at synnwyr o berthyn i gymuned, datblygu perthnasoedd iach gydag eraill ac ati.***

Roedd 383 o ymatebwyr wedi darparu adborth mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae tabl yn dangos y 5 thema uchaf wedi eu cynnwys mewn ymatebion isod. Mae themâu ymateb yn dangos dymuniad am fwy o ymdeimlad o gymuned yn ein Bwrdeistref Sirol, a'r angen am gefnogaeth i'r sawl sydd o bosibl yn fwy diamddiffyn.

| Pennawd Thema | Disgrifiad o'r Thema | Cyfanswm ymatebwyr |
|---|---|---|
| **Darparu cyfleoedd ar gyfer mwy o brosiectau a digwyddiadau yn y gymuned** | Cynnydd yn y nifer o brosiectau cymunedol a digwyddiadau fforddiadwy yn y Fwrdeistref. Hybu cyfranogiad lleol a gwirfoddoli i ddarparu'r digwyddiadau hyn i ddod â phobl ynghyd. Darparu cyfleoedd i gymunedau ymgeisio'n uniongyrchol am gyllid i ariannu digwyddiadau yn y dyfodol. | **135** |
| **Canolbwyntio ar gydlyniant cymunedol** | Buddsoddi mwy mewn gwella cydlyniant cymunedol, gan gynnwys drwy'r defnydd o addysg. Defnyddio prosiectau cymunedol i annog integreiddio grwpiau lleiafrifol ac | **78** |

| Pennawd Thema | Disgrifiad o'r Thema | Cyfanswm ymatebwyr |
|---|---|---|
| | ymgysylltu â'r gymuned ehangach. Annog mwy o bobl i fuddsoddi amser mewn bod yn rhan o gymuned Wrecsam. Datblygu teimlad o berthyn i holl gymunedau fod yn rhan o Ddiwylliant Cymru. | |
| **Gwella ardaloedd cymunedol** | Buddsoddi mewn ardaloedd cymunedol diogel i bob oedran. Hybu a chynnal parciau ac ardaloedd chwarae ac annog pobl o bob oedran i ddefnyddio mannau gwyrdd. Darparu maes parcio am ddim mewn parciau a mwy o gyfleusterau chwaraeon am ddim. Diogelu ein mannau gwyrdd. | **57** |
| **Buddsoddi mewn cefnogi pobl hŷn a'r mwyaf diamddiffyn** | Buddsoddi mewn sicrhau bod gan ein pobl ddiamddiffyn yr adnoddau i lwyddo a'r cyfle i gael bywydau llawn. Buddsoddi mewn prosiectau i ddatblygu sgiliau'r sawl allan o waith a chynyddu cefnogaeth i'r sawl sy'n dioddef gyda materion iechyd, gan gynnwys materion iechyd meddwl. Sicrhau bod yna gyllid ychwanegol i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a materion emosiynol, buddsoddi mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol ac addysg gyda dull amlasiantaeth. Canolbwyntio ar broblemau cymdeithasol ac ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol yn defnyddio enghreifftiau o wledydd eraill. | **53** |
| **Bwrdeistref a chanol tref mwy bywiog** | Gwneud Wrecsam yn le mwy atyniadol ar gyfer byw yno ac annog pobl i ganol y dref i gymdeithasu a buddsoddi mewn busnesau lleol. Gallai hyn gynnwys marchnad dan do/marchnad fwyd mwy a mwy o ddewis o fannau bwyta. Creu teimlad o falchder yn Wrecsam a denu mwy o swyddi gyda chyflog da i'r ardal. | **52** |

c) **Cwestiwn ansoddol 3: Beth ydych chi'n credu fyddai'n gwella lles amgylcheddol yn ein Bwrdeistref Sirol?** ***(Er enghraifft, gweithredoedd a allai gyfrannu at sefydlu ffyrdd o fyw cynaliadwy, diogelu adnoddau naturiol a gwaredu llygryddion a gwastraff gormodol.)***

Roedd 373 o ymatebwyr wedi darparu adborth mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae tabl yn dangos y 5 thema uchaf wedi eu cynnwys mewn ymatebion isod. Mae themâu ymateb yn cynnwys ystod o bryderon amgylcheddol ac yn canolbwyntio ar bwysigrwydd man gwyrdd ar gyfer iechyd a lles.

| Pennawd Thema | Disgrifiad o'r Thema | Cyfanswm ymatebwyr |
|---|---|---|
| **Hybu a gwella ailddefnyddio ac ailgylchu** | Casglu deunydd ailgylchadwy wrth ymyl y ffordd gwell gan gynnwys plastig meddal. Biniau ailgylchu mewn mannau cyhoeddus. Hybu ailddefnyddio. Sancsiynau ar gyfer peidio ailgylchu. Dileu tâl am ailgylchu gwastraff gwyrdd. Lleihau'r defnydd o blastig untro. | **150** |
| **Cynnal, diogelu, hybu a gwella mynediad i fannau gwyrdd.** | Llai o adeiladu ar fannau gwyrdd, yn arbennig yng nghanol y dref. Defnyddio safleoedd tir llwyd ble bo'n bosibl cyn ystyried man gwyrdd. Mynediad da i fan gwyrdd ar gyfer lles, datblygu sgiliau a hybu cydlyniant cymunedol. Diogelu parciau gwledig ac AHNE (Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol). Hybu mannau gwyrdd lleol a llwybrau cerdded i leihau teithio yn y car a gwneud ardaloedd yn fwy hygyrch i bawb. Annog mwy o fioamrywiaeth. | **109** |
| **Addysgu a hybu manteision hybu amgylchedd da, arwain drwy esiampl** | Addysgu pobl ifanc, hybu manteision hyrwyddo'r amgylchedd a lleihau allyriadau carbon i bawb. Sefydliadau yn arwain drwy esiampl. | **97** |
| **Gweithio i leihau llygryddion** | Gweithio gyda busnes a diwydiant i reoli/dileu llygryddion, glanhau llygredd mewn afonydd, safleoedd llygredig hanesyddol | **53** |
| **Mynediad gwell i bawb i ynni gwyrdd** | Mynediad gwell i bawb i ddatrysiadau ynni gwyrdd fel solar, cerbydau trydan. Mynediad gwell i bwyntiau gwefru ceir trydan | **50** |

**d) Cwestiwn ansoddol 4: Beth ydych chi'n credu fyddai'n gwella lles diwylliannol yn ein Bwrdeistref Sirol? *(Er enghraifft, diogelu a hyrwyddo diwylliant, treftadaeth ac iaith fywiog.)***

Roedd 342 o ymatebwyr wedi darparu adborth mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae tabl yn dangos y 5 thema uchaf wedi eu cynnwys mewn ymatebion isod. Mae themâu ymateb yn dangos ymwybyddiaeth gref o gyfoeth ac amrywiaeth diwylliant lleol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam a dymuniad i gydnabod a hybu diwylliant lleol.

| Pennawd Thema | Disgrifiad o'r Thema | Cyfanswm ymatebwyr |
|---|---|---|
| **Mwy o gefnogaeth i'r iaith / diwylliant Cymraeg** | Mwy o gefnogaeth i'r iaith a diwylliant Cymraeg – cyfle gwell i ddysgu Cymraeg yn y gymuned, cyfleoedd i ddysgu'r iaith mewn lleoliadau cymdeithasol a'r gweithle a defnyddio enwau ac arwyddion stryd. | **126** |

| Pennawd Thema | Disgrifiad o'r Thema | Cyfanswm ymatebwyr |
|---|---|---|
| **Mwy o ddigwyddiadau cymunedol** | Mwy o ddigwyddiadau cymunedol – buddsoddi mewn digwyddiadau diwylliannol rheolaidd fel gwyliau bwyd a cherddoriaeth fyw. | **72** |
| **Hybu hanes a diwylliant lleol a Chymraeg** | Hybu hanes a diwylliant lleol – cefnogi ac arwyddbostio grwpiau hanes lleol ac addysgu hanes lleol mewn ysgolion | **70** |
| **Cadw a hyrwyddo asedau a threftadaeth ddiwylliannol** | Cadw a hybu asedau diwylliannol – fel hen adeiladau a thirluniau diwydiannol. Hybu'r cyrchfannau hyn. | **52** |
| **Cydnabod a chefnogi diwylliannau eraill** | Mwy o gydnabyddiaeth i ddiwylliannau eraill sydd wedi setlo yn yr ardal. Mae Wrecsam yn sir amrywiol, dylid rhoi cydnabyddiaeth. Cyfleoedd i bobl gyfrannu a dathlu eu diwylliant eu hunain, cefnogaeth ar gyfer cydlyniant cymunedol | **48** |

## 7. Proffil yr ymatebwyr

### Grwpiau

Roedd yr 13 grŵp wnaeth ymateb i'r arolwg a ddarparodd y wybodaeth am eu grŵp neu gymuned yn cynrychioli ystod o ddiddordebau yn cynnwys y blynyddoedd cynnar ac ysgolion, cynghorau cymuned a grwpiau cymunedol lleol, tîm iechyd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a grwpiau cefnogaeth gymunedol eraill.

## Unigolion

Roedd unigolion a ymatebodd yn cynrychioli holl Adrannau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Wrecsam, er bod rhai ardaloedd wedi eu cynrychioli'n gryfach nag eraill:



| Dywedwch ym mha ranbarth etholiadol Bwrdeistref Sirol ydych yn byw | Nifer yr Ymatebwyr | Y ganran o'r ymatebwyr |
|---|---|---|
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 52 | 6.40% |
| Acton | 41 | 5.04% |
| Brymbo | 41 | 5.04% |
| Dwyrain/De Gwersyllt | 40 | 4.92% |
| Gogledd Gwersyllt | 40 | 4.92% |
| New Broughton | 37 | 4.55% |
| Offa | 35 | 4.31% |
| Parc Borras | 28 | 3.44% |
| Rhosnesni | 28 | 3.44% |
| Nid wyf yn byw yn Wrecsam | 28 | 3.44% |
| Coedpoeth | 27 | 3.32% |
| Esclus | 24 | 2.95% |
| Dyffryn Ceiriog | 21 | 2.58% |
| Hermitage | 20 | 2.46% |
| Llai | 20 | 2.46% |
| Ponciau | 18 | 2.21% |
| Gorllewin Gwersyllt | 17 | 2.09% |
| Holt | 16 | 1.97% |
| Garden Village | 15 | 1.85% |
| Dwyrain/Gorllewin Gresffordd | 15 | 1.85% |
| Little Acton | 15 | 1.85% |
| Maesydre | 15 | 1.85% |
| Cefn | 14 | 1.72% |
| Erddig | 14 | 1.72% |

| Dywedwch ym mha ranbarth etholiadol Bwrdeistref Sirol ydych yn byw | Nifer yr Ymatebwyr | Y ganran o'r ymatebwyr |
|---|---|---|
| Marchwiail | 14 | 1.72% |
| Bronington | 13 | 1.60% |
| Y Mwynglawdd | 13 | 1.60% |
| Owrtyn | 13 | 1.60% |
| Rhiwabon | 13 | 1.60% |
| Tre Ioan | 11 | 1.35% |
| Stansty | 10 | 1.23% |
| De'r Waun | 9 | 1.11% |
| Llangollen Wledig | 9 | 1.11% |
| Marford a Hoseley | 9 | 1.11% |
| Pen-y-cae | 9 | 1.11% |
| Bryn Cefn | 7 | 0.86% |
| Plas Madoc | 7 | 0.86% |
| Queensway | 7 | 0.86% |
| Smithfield | 7 | 0.86% |
| Yr Orsedd | 6 | 0.74% |
| Pen-y-cae a De Rhiwabon | 5 | 0.62% |
| Brynyffynnon | 4 | 0.49% |
| Cartrefle | 4 | 0.49% |
| Gogledd y Waun | 4 | 0.49% |
| Grosvenor | 4 | 0.49% |
| Pant | 4 | 0.49% |
| Whitegate | 4 | 0.49% |
| Wynnstay | 4 | 0.49% |
| Gwenfro | 2 | 0.25% |
| **Cyfanswm** | 813 | 100% |

## 8. Monitro cydraddoldeb

Mae data monitro cydraddoldeb safonol wedi'i ddadansoddi er mwyn sicrhau ein bod yn cynnwys pawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau, gan gynnwys y sawl â nodweddion a ddiogelir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn ein prosesau gwneud penderfyniadau.

Roedd 495 o ymatebwyr wedi dewis ateb un neu fwy o gwestiynau monitro cydraddoldeb yn yr ymgynghoriad.

### Faint yw eich oed?

Roedd 444 o ymatebwyr (51.4% o unigolion oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad), wedi ymateb i'r cwestiwn 'Beth yw eich oedran'.

| Ymateb | Nifer yr Ymatebwyr | Y ganran o'r ymatebwyr |
|---|---|---|
| Dan 11 | 2 | 0.45% |
| 11-17 | 56 | 12.61% |
| 18-24 | 10 | 2.25% |
| 25-34 | 30 | 6.76% |
| 35-44 | 61 | 13.74% |
| 45-54 | 99 | 22.30% |
| 55-64 | 82 | 18.47% |
| 65-74 | 72 | 16.22% |
| 75+ | 21 | 4.73% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 11 | 2.48% |

### Beth yw eich rhyw?

Roedd 441 o ymatebwyr (51.1% o unigolion oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad), wedi ymateb i'r cwestiwn 'Beth yw eich rhyw?'

| Ymateb | Nifer yr Ymatebwyr | Y ganran o'r ymatebwyr |
|---|---|---|
| Gwryw | 179 | 40.59% |
| Benyw | 243 | 55.10% |
| Arall | 4 | 0.91% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 15 | 3.40% |

## A yw eich hunaniaeth rhyw'r un peth a phan gawsoch chi eich geni?

Roedd 436 o ymatebwyr (50.5% o unigolion wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad) wedi ateb y cwestiwn, 'A yw eich hunaniaeth rhyw'r un peth a phan gawsoch chi eich geni?

| A yw eich hunaniaeth rhyw'r un peth a phan gawsoch chi eich geni? | Nifer yr Ymatebwyr | Y ganran o'r ymatebwyr |
|---|---|---|
| Ydy | 420 | 96.33% |
| Na | 4 | 0.92% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 12 | 2.75% |

## A yw eich gweithgarwch bob dydd wedi ei gyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddo bara, am o leiaf 12 mis?

Roedd 435 o ymatebwyr (504% o unigolion wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad) wedi ateb y cwestiwn 'A yw eich gweithgarwch bob dydd wedi ei gyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddo bara, am o leiaf 12 mis?

| A yw eich gweithgarwch bob dydd wedi ei gyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddo bara, am o leiaf 12 mis? | Nifer yr Ymatebwyr | Y ganran o'r ymatebwyr |
|---|---|---|
| Ydi - wedi ei gyfyngu'n arw | 37 | 8.51% |
| Ydi - wedi ei gyfyngu ychydig | 69 | 15.86% |
| Na | 313 | 71.95% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 16 | 3.68% |

## Ydych chi'n gofalu am rywun neu'n rhoi help neu gefnogaeth i eraill oherwydd afiechyd/anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor; neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?

Roedd 432 o ymatebwyr (50.1% o unigolion oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad) wedi ateb y cwestiwn 'Ydych chi'n gofalu am rywun neu'n rhoi help neu gefnogaeth i eraill oherwydd afiechyd/anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor; neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?

| Ydych chi'n gofalu am rywun neu'n rhoi help neu gefnogaeth i eraill oherwydd afiechyd/anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor; neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint? | Nifer yr Ymatebwyr | Y ganran o'r ymatebwyr |
|---|---|---|
| Ydw | 124 | 28.70% |
| Na | 285 | 65.97% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 23 | 5.32% |

## Sut fyddech chi'n disgrifio eich Hunaniaeth Genedlaethol?

Roedd 435 o ymatebwyr (50.4% o unigolion wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad) wedi ateb y cwestiwn, 'Sut fyddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?

| Sut fyddech chi'n disgrifio eich Hunaniaeth Genedlaethol? | Nifer yr Ymatebwyr | Y ganran o'r ymatebwyr |
|---|---|---|
| Cymraeg | 257 | 59.08% |
| Saesneg | 44 | 10.11% |
| Albanwr/Albanes | 3 | 0.69% |
| Gogledd Iwerddon | 0 | 0.00% |
| Prydeinig | 115 | 26.44% |
| Arall | 10 | 2.30% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 6 | 1.38% |

## Pa iaith sydd orau gennych chi?

Roedd 435 o ymatebwyr (50.4% o unigolion oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad), wedi ymateb i'r cwestiwn 'Pa iaith sydd orau gennych chi?'

| Pa iaith sydd orau gennych chi? | Nifer yr Ymatebwyr | Y ganran o'r ymatebwyr |
|---|---|---|
| Saesneg | 395 | 90.80% |
| Cymraeg | 20 | 4.60% |
| Arall | 7 | 1.61% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 13 | 2.99% |

## Beth yw eich grŵp ethnig?

Roedd 440 o ymatebwyr (51% o unigolion oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad), wedi ymateb i'r cwestiwn 'Beth yw eich grŵp ethnig?'

| Beth yw eich grŵp ethnig? | Nifer yr Ymatebwyr | Y ganran o'r ymatebwyr |
|---|---|---|
| Gwyn | 408 | 92.73% |
| Cymysg/grwpiau aml-ethnig | 5 | 1.14% |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | 2 | 0.45% |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 1 | 0.23% |
| Grŵp ethnig arall | 4 | 0.91% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 20 | 4.55% |

## Beth yw eich crefydd neu gred?

Roedd 425 o ymatebwyr (49.2% o unigolion oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad), wedi ymateb i'r cwestiwn 'Beth yw eich grŵp ethnig?'

| Beth yw eich crefydd neu gred? | Nifer yr Ymatebwyr | Y ganran o'r ymatebwyr |
|---|---|---|
| Dim crefydd | 187 | 44% |
| Cristion (pob enwad) | 204 | 48% |
| Bwdhydd | 1 | 0.24% |
| Hindw | 1 | 0.24% |
| Iddewiaeth | 0 | 0.00% |
| Mwslim | 1 | 0.24% |
| Sikhiaeth | 0 | 0.00% |
| Unrhyw grefydd arall | 10 | 2.35% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 21 | 4.94% |

## Ydych chi yn feichiog ar hyn o bryd neu wedi bod yn feichiog, neu wedi cymryd absenoldeb mamolaeth yn y flwyddyn ddiwethaf?

Roedd 428 o ymatebwyr (49.6% o unigolion oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad) wedi ateb y cwestiwn 'Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd neu wedi bod yn feichiog, neu wedi cymryd absenoldeb mamolaeth yn y flwyddyn ddiwethaf?

| Ydych chi yn feichiog ar hyn o bryd neu wedi bod yn feichiog, neu wedi cymryd absenoldeb mamolaeth yn y flwyddyn ddiwethaf? | Nifer yr Ymatebwyr | Y ganran o'r ymatebwyr |
|---|---|---|
| Ydw | 6 | 1.40% |
| Na | 406 | 94.86% |

| Ydych chi yn feichiog ar hyn o bryd neu wedi bod yn feichiog, neu wedi cymryd absenoldeb mamolaeth yn y flwyddyn ddiwethaf? | Nifer yr Ymatebwyr | Y ganran o'r ymatebwyr |
|---|---|---|
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 16 | 3.74% |

### Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?

Roedd 427 o ymatebwyr (49.5% o unigolion oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad) wedi ateb y cwestiwn 'Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?

| Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau? | Nifer yr Ymatebwyr | Y ganran o'r ymatebwyr |
|---|---|---|
| Heterorywiol neu strêt | 364 | 85.25% |
| Hoyw neu Lesbiaid | 8 | 1.87% |
| Deurywiol | 17 | 3.98% |
| Arall | 7 | 1.64% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 31 | 7.26% |

## 9. Camau Nesaf

Defnyddir yr adborth o'r ymgynghoriad hwn ynghyd ag ystod eang o wybodaeth arall fel data, tystiolaeth ac ymchwil i lywio asesiad lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a gyhoeddir ym mis Mai 2022.

Byddwn yn defnyddio canfyddiadau ein hasesiad lles fel sail ar gyfer datblygu cynllun llesiant newydd BGC, a byddwn yn ymgynghori arno ac yn ei gyhoeddi erbyn Mai 2023.